

Reg Kilpatrick
Cyfarwyddwr Llywodraeth Leol
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd, CF10 3NQ

30 Ionawr 2018

Annwyl Mr Kilpatrick,

Diogelwch Cymunedol yng Nghymru

Diolch am eich llythyr dyddiedig 6 Rhagfyr 2017 a drafodwyd gan y Pwyllgor, ynghyd ag Adolygiad Llywodraeth Cymru, ar 15 Ionawr.

Rydym yn croesawu cwblhau'r adolygiad Gweithio Gyda'n Gilydd i greu Cymunedau mwy Diogel, ond gofynnwn am fanylion pellach am yr amserlenni ar gyfer gweithredu'r gwahanol gamau y mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymo iddynt wrth ymateb, fel y disgrifir ar dudalennau 74 i 77. Gofynnwn hefyd i chi ddarparu diweddariad erbyn diwedd 2018.

O ran y trydydd o'r camau gweithredu hyn – 'Datblygu perthynas a dull strategol gwahanol gyda phartneriaid diogelwch cymunedol annatganoledig sy'n sefydlu rôl arwain fwy effeithiol i Lywodraeth Cymru mewn meysydd y mae'r cyfrifoldeb amdanynt wedi cael ei ddatganoli ac sy'n gysylltiedig â gweithio mewn partneriaeth i wella diogelwch cymunedol' – byddem yn croesawu eglurhad ynghylch cwrdd ac amserlen cynlluniau Llywodraeth Cymru. Yn benodol, a yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu datblygu strategaeth genedlaethol ar wahân ar gyfer diogelwch cymunedol fel yr argymhellwyd yn flaenorol gan yr Archwilydd Cyffredinol.



Rydym hefyd am ofyn am ragor o fanylion am ddull Llywodraeth Cymru o ddelio â'r risgiau a achosir gan weithgarwch Terfysgaeth a Radicaleiddio yng nghydestun Diogelwch Cymunedol.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink that reads "Nick Ramsay". The signature is written in a cursive style with a long horizontal flourish at the end of the name.

Nick Ramsay AC
Cadeirydd

